**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 30 GORFFENNAF 2019 YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD.**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro), Mr Theodore Joloza a Mrs Julie May.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mr Josh Lovell (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Swyddog Cymorth Busnes)

**Ymddiheuriadau:** Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon)

**Amser Dechrau:** 10:00
**Amser Gorffen:** 16:00

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Datganwyd buddiant yng Nghasnewydd gan Mr Theodore Joloza.
1.2. Datganwyd buddiant yng Nghastell-nedd Port Talbot gan Mrs Julie May.
1.3. Datganwyd buddiant yng Nghasnewydd gan Mrs Shereen Williams.

Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod unrhyw un o'r buddiannau a ddatganwyd yn atal y Comisiynwyr dan sylw rhag cymryd rhan lawn mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau, ac eithrio pan oedd y ward etholiadol sy'n benodol i unigolyn yn cael ei hystyried.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd Dros Dro ddiweddariad i'r Comisiwn ar benodiad Mr David Powell fel y Dirprwy Gadeirydd Dros Dro.
2.2. Dywedodd y Cadeirydd Dros Dro fod diweddariad ar y gweill ynghylch y raddfa gyflog ar gyfer Comisiynwyr.
2.3. Croesawodd y Comisiynwyr y Swyddog Arolygon newydd i'r Comisiwn.
2.4. Trafodwyd yr Holiadur Ôl-arolwg Etholiadol. Cytunwyd bod angen cyhoeddi hwn ar ôl cwblhau arolygon yn hytrach nag yn dilyn gorchymyn.
2.5. Bydd dau ymgynghorydd allanol Cyngor Merthyr a fydd yn cefnogi Arweinyddiaeth Wleidyddol a Swyddogion Merthyr yn cael eu gwahodd i'r Comisiwn am gyfarfod anffurfiol i rannu gwybodaeth am y broses arolygu a throsolwg

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019

3.1. Yn amodol ar rai mân ddiwygiadau a phenderfyniad i ddogfennu trywydd archwilio wardiau etholiadol o'r cyfnod cyn yr arolwg i'r cyfnod ar ôl yr arolwg, **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 22 Gorffennaf gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd.

- **(Mater 1)** Llythyr Cylch Gwaith 2019/20 (Hygyrchedd Adroddiadau ar Arolygon)
- **(Mater 2)** Rhaglen Newid
- **(Mater 3)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach
- **(Mater 4)** 'Cyfleoedd Cysgodi' – yr Uned Cyrff Cyhoeddus.

## 5. Arolwg Etholiadol Casnewydd – Opsiynau Drafft

5.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf 2019 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Beechwood, y Betws a Victoria.

Cytunodd y Comisiwn â'r cynigion i wneud gostyngiad o un yn nifer yr aelodau yn Beechwood a'r Betws. Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwelliannau o ran amrywiant etholiadol
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n cadw ffiniau presennol wardiau etholiadol a chymunedau.

Hefyd, bu'r Comisiwn yn ystyried newidiadau i ward etholiadol Victoria oherwydd yr amrywiant amhriodol posibl a awgrymir yn yr amcanestyniadau a ddarparwyd gan y Cyngor. Penderfynwyd ei bod yn amhriodol i ddarparu aelod ychwanegol ar gyfer Victoria o ystyried bod gan y ward tua 500 yn llai o etholwyr na Beechwood a'r Betws yn y drefn honno.

5.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer y wardiau etholiadol yn Rhanbarth 1 Graig a Thŷ-du a chytunodd ar Opsiwn 3a sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Graig, Dwyrain Tŷ-du, Gorllewin Tŷ-du a Gogledd Tŷ-du.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n darparu ar gyfer wardiau un aelod a hefyd yn datrys anghysondeb Afon Village yn y trefniadau presennol.

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 2 Maerun a Pharc Tredegar a chytunodd ar Opsiwn 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Gorllewin Maerun a Pharc Tredegar a Dwyrain Maerun.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n cadw ffiniau cymunedau presennol
- Nid yw'n cynnig unrhyw gymunedau hollt.

5.5. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 3 a chytunodd – Opsiwn 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Pilgwenlli a Stow Hill

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n darparu ffiniau a nodir yn hawdd
- Mae'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd posibl mewn cynrychiolaeth a amcanestynnir.

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 4 sy'n cynnwys wardiau etholiadol Langstone, Llyswyry, Llan-wern a Ringland a chytunodd ar Opsiwn 2a sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Trefesgob a Langstone, Llyswyry, Llan-wern a Ringland

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cydymffurfio â'r holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd neu ran o'r mwyafrif ohonynt
- Mae'n darparu hyblygrwydd i gadw'r trefniannau (â dyraniad diwygiedig o ran aelodau) os bydd datblygu'n digwydd yn y dyfodol.

## 6. Arolwg Etholiadol Casnewydd – Adroddiad Drafft

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf 2019 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2. Ystyriwyd cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn, a'r enwau a gynigir ar gyfer wardiau etholiadol.

6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Dirprwy Brif Weithredwr cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

## 7. Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot – Drafft

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 22 Gorffennaf 2019 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 1 – sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Cwmllynfell, Gwaun-Cae-Gurwen, Godre'r Graig, Brynaman Isaf, Ystalyfera

Cytunwyd ar Opsiwn 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Cwmllynfell, Godre'r Graig ac Ystalyfera a ward etholiadol Gwaun-Cae-Gurwen a Brynaman Isaf.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n alinio'r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn
- Mae'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau cymaint ag y bo modd.

7.3. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 2 a chytunwyd ar Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Pontardawe a Threbannws

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n mynd i'r afael â chynrychiolaethau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Castell-nedd Port Talbot
- Mae'n cynnal cyfanrwydd y cymunedau cymaint ag y bo modd.

7.4. Ystyriodd y Comisiwn y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Blaen-gwrach, y Creunant, Glyn-nedd, Onllwyn a Blaendulais

Cytunwyd ar Opsiwn 1 sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig Blaen-gwrach a Glyn-nedd a ward etholiadol arfaethedig y Creunant, Onllwyn a Blaendulais.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cydymffurfio â chynrychiolaethau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Castell-nedd Port Talbot
- Mae'n cynnal cyfanrwydd cymunedau cymaint ag y bo modd.

7.5. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 4 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Cymer, Glyncorrwg a Gwynfi

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Cymer a Glyncorrwg, a Gwynfi gyda Chroeserw.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cynnal cyfanrwydd cymunedau cymaint ag y bo modd.
- Mae'n darparu amrywiant derbyniol yn seiliedig ar y ffigyrau a amcanestynnir.

7.6. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 5 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bryn a Chwmafan, Cimla, Pelenna, Resolfen a Thonna a chytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys ward etholiadol arfaethedig Bryn, Cwmafan a Phelenna, ward etholiadol arfaethedig Resolfen a Thonna a ward a gedwir arfaethedig Cimla

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae’n cynnal cyfanrwydd cymunedau cymaint ag y bo modd.

7.7. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 6 a chytunodd ar Opsiwn 1 sy’n cadw wardiau etholiadol:

Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd a De Castell-nedd

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n darparu lefelau derbyniol o amrywiant etholiadol
- Mae’n cadw wardiau etholiadol a ffiniau cymunedau presennol.

7.8. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 7 sy’n cynnwys wardiau etholiadol:

Aberafan, Margam, Port Talbot, Tai-bach

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy’n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Aberafan, Port Talbot a ward arfaethedig Margam a Thai-bach.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Dyma’r ffordd orau o fynd i’r afael â’r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae’n alinio’r cynnig â Maint y Cyngor a Fwriedir y Comisiwn.

7.9. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 8 a chytunodd ar Opsiwn 1 sy’n cynnwys wardiau etholiadol:

Canol Coed-ffranc a Gorllewin Coed-ffranc

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n cymryd datblygiadau tai yn yr ardal i ystyriaeth
- Mae’n gwella ffiniau a nodir a gorgynrychiolaeth a amcanestynnir yng Ngorllewin Coed-ffranc
- Nid yw’n creu cymunedau hollt
- Mae’n cydymffurfio â chynrychiolaethau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

7.10. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 9 sy’n cynnwys wardiau etholiadol:

Aberdulais, Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Gogledd Coed-ffranc a Dyffryn.

Cytunwyd ar Opsiwn 3a sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Gogledd Coed-ffranc, Dyffryn a ward etholiadol arfaethedig Aberdulais a Llangatwg.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n darparu ar gyfer y cysylltiadau cyfathrebu gorau.

## 8. Arolwg Etholiadol Wrecsam – Opsiynau Drafft.

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 24 Gorffennaf 2019 gan y Swyddog Arolygon.

8.2. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Cefn, Llangollen Wledig, Pen-y-cae, Pen-y-cae a De Rhiwabon, Plas Madoc a Rhiwabon.

Cytunwyd ar Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Gogledd Acre-fair, Dwyrain Cefn, Gorllewin Cefn, Llangollen Wledig, Pen-y-cae, Rhiwabon a ward etholiadol Pen-y-cae a De Rhiwabon.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Y cynllun hwn yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant yn yr ardal
- Mae'n lleihau nifer y cymunedau hollt
- Mae wedi defnyddio strwythurau cymunedol sy'n bodoli ac wedi hyrwyddo cysylltiadau cymunedol mewn trefniant sydd â'r lefelau priodol o amrywiant etholiadol
- Mae'n lleihau nifer y wardiau aml-aelod
- Fe'i cefnogir gan y cynrychiolaethau.

8.3. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Brymbo, Esclusham, Johnstown, y Mwynglawdd, Pant, Ponciau.

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Brymbo, Esclusham, y Mwynglawdd, Ponciau, Rhos a ward arfaethedig Johnstown a Phant.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:
- Y cynllun hwn yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant yn yr ardal
- Mae wedi defnyddio strwythurau cymunedol presennol.
- Mae wedi hyrwyddo cysylltiadau cymunedol sydd wedi arwain at lefelau priodol o amrywiant etholiadol
- Mae wedi mynd i'r afael â'r problemau â newidiadau arfaethedig i ffiniau a nodir gan y Cyngor o ran ffiniau wardiau cymunedol Ponciau a Rhos.

8.4. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bryn Cefn, Gwenfro, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, Dwyrain a De Gwersyllt, Brychdyn Newydd.

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Bryn Cefn, Gwenfro, Gogledd Ddwyrain Gwersyllt, Gogledd Orllewin Gwersyllt, De Gwersyllt a Brychdyn Newydd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:
- Mae'r cynllun hwn yn darparu'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol ledled yr ardal

8.5. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 4 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Cartrefle, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Holt, Queensway, Smithfield, Whitegate, Wynnstay

Cytunwyd ar Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Cartrefle, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Holt, Queensway, Smithfield, Whitegate, ac Wynnstay.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:
- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol yn yr ardal

- Mae'n cadw at y dewis a ffefrir gan y Comisiwn o gael wardiau etholiadol un aelod
- Mae'n lleihau nifer y wardiau aml-aelod
- Fe'i cefnogir gan y cynrychiolaethau.

8.6. Ystyriodd y Comisiwn y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 5 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Llai, Marford a Hoseley, yr Orsedd.

Cytunwyd ar Opsiwn 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Allington, Burton a Llai, and Marford a Hoseley.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu'r amrywiant etholiadol gorau posibl ar gyfer y rhanbarth
- Mae'n lleihau nifer y wardiau aml-aelod.

8.7. Bu'r Comisiwn yn trafod y Cynnig Drafft at gyfer Rhanbarth 6 a chytunodd ar Opsiwn 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Brynffynnon, Erddig, Hermitage, Offa

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae Opsiwn 1 yn cyflwyno'r unig gynllun sy'n cynnwys wardiau un aelod yn unig ac mae'n datrys y tangynrychiolaeth o fewn ward etholiadol Brynffynnon.

8.8. Ystyriodd y Comisiwn y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 7 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Bronington ac Owrtyn

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Bangor-Is-y-Coed, Bronington a Hanmer, Owrtyn a De Maelor.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n lleihau nifer y wardiau aml-aelod.

8.9. Ystyriodd y Comisiwn y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 8 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Gwaunyterfyn, Parc Borras, Acton Fechan, Maes-y-dre, Rhosnesni

Cytunwyd ar Opsiwn 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig Gwaunyterfyn a Maes-y-dre, Parc Borras, Acton Fechan, Rhosnesni.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n lleihau nifer y wardiau aml-aelod.

## 9. Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr – Adroddiad Terfynol.

9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 22 Gorffennaf 2019 gan y Swyddog Arolygon.

9.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

9.3. Cytunodd y Comisiwn ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

## 10. Rheoli Risg – y Gofrestr Risg

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. Nodwyd bod angen diweddaru Risg CR2 yng ngoleuni recriwtio staff ychwanegol yn ddiweddar. **Cytunwyd** y dylid lleihau graddfa risg weddilliol Risg CR2 o 20 i 12.

10.3. Ystyriodd y Comisiwn bod yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi gorchymyn ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy yn bygwth cael effaith niweidiol sylweddol ar yr amserlen ar gyfer cwblhau arolwg etholiadol Sir Fynwy erbyn y dyddiad cau gofynnol yn 2021. **Cytunwyd** y dylid cynyddu'r raddfa risg hanfodol ar gyfer risg CR4 o 15 i 25 a chynyddu'r risg weddilliol o 8 i 20.

10.4. **Cytunwyd** y bydd camau lliniaru ychwanegol yn cael ei hychwanegu at risg CR4 ac y dylid anfon llythyr at Ddirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth

Leol Llywodraeth Cymru i'w rhybuddio am y risg i'r Comisiwn ac i gynnig cymorth i ddrafftio'r gorchymyn ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy.

10.5. Ystyriodd y Comisiwn fod y risg na fydd arolygon etholiadol yn cael eu gweithredu mewn da bryd gan Lywodraeth Cymru wedi cynyddu oherwydd y posibilrwydd y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i faterion eraill sy'n dod i'r amlwg. **Cytunwyd** ar gynyddu'r risg hanfodol o 12 i 20 a'r risg weddilliol o 6 i 16.

## 11. Adroddiad Cyllideb

11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 30 Gorffennaf 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Nododd y Comisiwn y trosglwyddiad cyllid rhwng y categorïau cyllideb costau staff a'r tanwariant am y cyfnod.

11.3. Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod Llywodraeth Cymru'n agos at gwblhau dyfarniad cyflog ar gyfer staff. Ar sail y ffigyrau dros dro ar gyfer y dyfarniad cyflog, bydd y gost i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol tua £10.5k. Gellid cynnwys y gwariant ychwanegol hwn yn y gyllideb bresennol oherwydd y cafodd darpariaeth ar gyfer codiad cyflog staff ei chynnwys yn amcangyfrif gwreiddiol y gyllideb.

## 12. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

12.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.

12.3. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. Ni wnaed unrhyw ychwanegiadau i'r Calendr digwyddiadau.

13.2. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 14. Unrhyw Fusnes Arall

14.1. Trafododd y Comisiwn gais gan Lywodraeth Cymru ynghylch eglurhad ar Argymhellion Terfynol Powys. Caiff ymateb ei ddrafftio.

14.2. Nodwyd y cafwyd cyngor gan Gyllid a Thollau EM ynghylch treth ar dreuliau Aelodau. Roedd yr holl gostau teithio i swyddfeydd y Comisiwn ac oddi yno, yn ogystal â threuliau hawliadwy eraill, yn destun treth gan fod Cyllid a Thollau EM yn ystyried hyn yn fudd trethadwy. Roedd y treuliau ar gyfer teithio i bob lleoliad arall yng Nghymru wedi'u heithrio rhag treth.

14.3. Ystyriodd y Comisiwn yr anawsterau a brofwyd o ran cael yswiriant teithio addas ar gyfer staff. Nodwyd bod y sefyllfa hon yn gohirio'r diweddariad gorddyledus i'r polisi Teithio a Chynhaliaeth sy'n ofynnol gan argymhelliad hirsefydlog yn deillio o archwiliad. **Cytunwyd** na fydd y Comisiwn yn parhau i geisio cael yswiriant teithio ac y bydd y lefel isel o debygolrwydd o risg dan sylw yn cael ei goddef.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 27 Awst 2019**